



# Llais Y Derwent

Rhagfyr 2010

Papur Bro i Ddysgwyr Cymraeg Canolbarth Lloegr

Pris 25c

## Newyddion

Yn lleol mae gweithgareddau Cymraeg eu hiaith yn mynd ymlaen yn eithaf llwyddiannus. Does dim dosbarth WEA yn Belper y tymor yma oherwydd doedd dim digon o bobl yn cofrestru, ond mae'nna grŵp annibynnol. Mae Gwen Mulliner wedi trefnu dosbarth bob pythefnos yn hen Ysgol Gramadeg Strutt, Belper sy bellach yn ganolfan cymunedol. Mae 9 o bobl yn aelod o'r grŵp. Yn Derby mae'r Cylch Dysgwyr Cymraeg dal i gwrdd bob bore Dydd Mawrth yn Nhŷ Cwrdd y Crynwyr, Stryd Sant Helen. Mae niferoedd y cylch tipyn bach i lawer eleni, felly mae'nna groeso mawr i aelodau newydd. Cawson ni Ysgol Undydd Cymraeg da iawn efo 32 o bobl yn bresennol gan gynnwys 8 o wirfoddolwyr Cymraeg. Mae'r cyfarfod Bore Coffi Popeth Yn Gymraeg Nottingham yn mynd o nerth i nerth efo 16 o bobl yn mynychu cyfarfod Mis Tachwedd. Mi fydd Cymdeithas Cymry Nottingham yn cynnal gwasanaeth Carol dwyieithog ar Ddydd Sul 12 o Ragfyr ac mi fydd Noson Lawen ar Sadwrn 14 o Fai. Mae'r manylion cyfarfodydd y Gymdeithas ar safle we'r Gymdeithas.

Mae'nna raglen lawn o Weithdai Cymraeg yn Derby o Fis Tachwedd tan Fis Mehefin. Mae manylion pob un o weithgareddau'r ardal ar ein safle we leol ni sef [www.derbywelshlearnerscircle.blogspot.com](http://www.derbywelshlearnerscircle.blogspot.com).

Mae safle Facebook, Menter Iaith Lloegr - Dysgu'r Gymraeg yn Lloegr sy wedi cael ei sefydlu gan Jonathan Simcock wedi tyfu yn braf. Bellach mae'nna 124 aelodau ac mae manylion 12 o grwpiau / dosbarthiadau ar y safle.

## Dyfodol S4C

Fel dyn ni i gyd yn gwybod, dydy pethau ddim wedi bod yn rhedeg yn esmwyth i S4C ers sbel rŵan, gyda phethau'n dod i ben llanw gydag ymddiswyddiad dirybudd prif weithredwraig y sianel yn ôl ym mis Gorffennaf. Ymddiswyddwyd hefyd Rhian Gibson, cyfarwyddwyd gyda chyfrifoldeb dros gomisiynu rhaglenni i'r sianel (digwydd bod dwi'n cofio siarad gyda hi am ddarpariaeth i ddysgwyr yn Noson Gwylwyr, Lerpwl). Mae'n eironig efallai bod y person a gomisiynwyd Pen Talar - heb os un o'r dramâu gorau a ddarledwyd ar S4C ers blynyddoedd - wedi gadael cyn i'r gyfres dod i ben er mae'n siŵr mai ganddi hi gyfrifoldeb dros ambell i dwrci hefyd.

Yn y distawrwydd byddarol addilynnod 'diflaniad' Iona Jones, mi gamodd Arwel Ellis Owen i'r adwy, boi andros o sych sydd i fod i lywio'r 'S.S. S4C' trwy'r dyfroedd cythryblus

a thymestlus sydd i ddod. Cymerais i ddim ato fo o gwbl, hynny yw y tro cyntaf i mi ei weld yn cael ei gyfweld yn ei swydd newydd, nag ar noson gwylwyr y sianel pythefnos yn ôl chwaith. Ond ers i lywodraeth San Steffan ei drin o (a gweddill y sianel) fel y baw, mae gen i fwy o gydymdeimlad. Nad ydy ein hoff sianel Cymraeg ni wedi cael llawer o gyhoeddusrwydd cadarnhaol yn ddiweddar, gyda'r holl nonsens 'dim gwylwyr' yn y wasg Saesneg (dydyn nhw ddim yn cyfri plant bach yn y ffigyrau gwyllo dros raglenni i blant bach!?). Ond yn ôl S4C, mae ffigyrau gwyllo rhaglenni Cymraeg wedi cynyddu ychydig dros y flwyddyn ddiwethaf, sy'n mynd yn groes i'r hyn sy'n cael ei gyhoeddi fel arfer. Mae'n annheg yn ôl y sianel (ac mae synnwyr cyffredin yn dweud bod hyn yn wir) i gymharu'r ffigyrau ar gyfartaledd o'r cyfnod cyn i S4C newid i sianel gwbl Gymraeg, gyda ffigyrau ar gyfartaledd y sianel gwbl Cymraeg presennol. Yn ôl ffigyrau eraill a glywais, mae rhaglenni S4C wedi cael eu gwyllo tua miliwn o weithiau dros y we yn y naw mis diwethaf, modd o wyllo fy mod i'n dewis mwy a mwy'r dyddiau 'ma.

Ond dwi'n gobeithio nad ydy'r don fach o gefnogaeth i'r sianel - sy'n codi stêm yn sgil yr helynt gyda'r BBC (ydy hi'n bosib i don codi stêm?!), yn gwyngalchu dros y problemau sylfaenol, a arweiniodd at yr ymddiswyddiadau anamserol yn ystod yr haf (o'r gorau, tydi 'ton' yn bendant ddim yn gallu gwyngalchu!!).

Mae S4C yn agos at fy nghalon i erbyn hyn, er gwaethaf yr holl wendidau. Ond mae'r toriadau enbyd yn ei gyllid, a llywodraeth newydd sydd heb ddangos llawer o ddealltwriaeth neu barch tuag at ddarledu yn y Gymraeg, yn codi ofn am ei ddyfodol. Ond gaiff y sianel prif weithredwr/aig parhaol newydd cyn hir, a fydd yn un o'r penodiadau pwysicaf yn hanes y sianel o bosib dewiswch yn ofalus!

Neil Wyn Jones



## Mynd a'r Tir

Peiriannwr ifanc o'wn i yn 1962, wedi bod yn gweithio i ffyrm o Ymgynghorwyr Sifil yn Victoria Street, Llundain. Mi fûm yn cynllunio prosiectau ffyrdd a phontydd yno, am ryw ddwy flynedd, ac wedi mwynhau'r profiad. Er mwyn datblygu i fod yn beiriannwr proffesiynol roedd rhaid cael profiad hefyd ar y maes, i ennill yr A.M.I.C.E. Trefnwyd i mi gael ysbaid i lawr ar adeiladu hewl newydd, yr A453 o Ddowlais Top i Hirwaun - yn dechrau yn oerfel y Gaeaf, ac maen bosibl fod yn oer iawn yn uchelder Ffordd Blaenau'r Cymoedd!

Y peth cyntaf roedd rhaid gwneud oedd mynd i weld y tir feddianwyr, ac i gytuno lle'r oedd y terfynau newydd i fod. Roedd y rhan fwyaf wedi'i gytuno rhwng cyfreithwyr y cynrychioli'r tir feddianwyr a'r llywodraeth a'r tal compulsory wedi'i drosglwyddo yn barod cyn i fi alw heibio. Teimlo rhai eu bod wedi cael bargaen arw, a hyn yn peri diflasodd parhaol. Rhai wrth gwrs yn colli tai, gerddi hyfryd ac eraill dim ond tir garw. Ni chwrrdais â neb am fy ngyrru bant a dryll, ond gosodwyd ambell gi ar fy sodlau.

Mor wahanol oedd croeso hyfryd Mrs Price yn Upper Vaynor Road. Minnau'n dweud pwy oeddem a bod yr amser wedi dod i farcio allan y tir yr oedd i gollu a ble y byddem yn codi wal gerrig newydd iddi. "Ewch a cymaint ag chi am" meddai, "allai'i ddim gwneud yr ardd mwyach, a dewch i mewn i gael paned o de". Aeth Jock yr insbector a mi i mewn i dŷ hyfryd, ar ôl tynnu ein hesgidiau bowlyd lawr a'u gadael y tu allan. Row'n ni'n cael eistedd yn y lolfa, a'r tebot arian yn dod allan a'r Tsiena gorau a chacennau'r planc.

Sgwrsio am y tir a'r wal ac am ei diweddar ŵr, ac yr oeddem yn ffrindiau agos yn fuan - roedd

hi'n garedig ond hefyd yn falch fod rhywrai yn galw i mewn. Roedd y te bob amser yn gryf - fe allai llwy sefyll yn reit syth ynddo.

R'oedd piano Babi Grand yn yr ystafell,- roedd ei gwr Eiseia Price wedi bod yn berchennog Theatr ym Merthyr mae'n debyg, ac efallai nifer o'i berfformwyr a chantorion yn westeion yno. Os byddai Jock ddim i'w weld ambell brynhawn gwlyb roeddwn yn weddol siŵr ei fod yn mwynhau croeso mawr a phaned o de arbennig, ac efallai yn gwylio rasys ceffylau ar y teledu gyda Mrs Price. Fe aeth fy nwy flynedd yng Nghefn Coed yn gyflym ac yn bleserus dros ben. Coffa da amdani!

### GEIRFA

A.M.I.C.E - Associate Member of the Institution of Civil Engineers

Peiriant – engine;

peiriannwr – engineer;

Sifil – civil;

o'wn - oeddwn, - was I;

Ymgynghorw(y)r – consultant(s);

Tir – land; meddiant – own or hold;

meddiannwr – holder;

Tir feddiannwyr – landholders; -

Perchennog – owner;

Cyfreithw(y)r – solicitor(s);

Cytuno – agree;

cytundeb – agreement;

Trosglwyddo – transfer;

diflasdod – misery;

Garw – rough;

bowlyd – dirty;

Gwesty – guesthouse;

gwesteion - those staying;

Perfformw(y)r – performer(s);

Maes – site;

terfyn – boundary;

terfynnau – boundaries;

wal – wall;

Gwynne Davies

## Cymdeithas Cymry

### Nottingham


Cyfarfod Bore Coffi

'Popeth yn Gymraeg' Misol i  
Gymry Cymraeg

Am fanylion cysylltwch a

Gwynne Davies ar

0115 925 9613



## Vulpes Vulgaris

Wel dynnach chi enw hyfryd; Lladin wrth gwrs am y cadno cyffredin. Mae 'na awgrym o gyng-hanedd yn y geiriau. Dyna beth braf yw cael enwau Lladin ar anifeiliaid a phlanhigion ac adar. Gallwch esgus bod yn ddysgedig iawn wrth eu defnyddio.

Braidd yn siomedig yw'r geiriau Saesneg, The Common Fox. A beth am y gair Cymraeg? Wel, y geiriau fel mae'n digwydd. Dim yn aml mae dau air cyffredin yn Gymraeg lle mae un yn Saesneg. Cadno yn gyntaf. Rydach yn siŵr o fod wedi clywed (er fe ddarllenais fod hwn ddim yn llythrennol wir) fod sawl gair yn iaith rhai o lwyth yr Innuit am eira, am fod eira yn beth mor holl bwysig iddynt. Nid wy'n gwybod hanes gwraidd y gair cadno ond mae rhywbeth sy'n swnio'n werinol ynddo; mae'r lluosog yn air swynol hefyd, sef cadnoid. Dim yn aml mae lluosog enwau Cymraeg yn gorffen ac -id, ond mae yn digwydd fan hyn. A'r gair arall wrth gwrs Llwynog, a'r lluosog llwynogod, yn air mwy llenyddol a gogleddol efallai ond mae'n well gen i gadno. A ydi hyn yn awgrymu bod y Vulpes Vulgaris rhywsut yn fwy o ran isymwybod y Cymry na'r Saeson fel bod rhaid cael dau air, fel yr Innuit a'u geiriau am eira. Nac ydyw, byd siŵr, ond gadewch i ni'r Cymry ymfalchïo am unwaith yn lluosogrwydd ein hiaith.

Ces fy nghodi ar fferm ym mherfedd gwlad Sir Gaerfyrddin a gwelais, fel pob plentyn arall, gadnoid o bryd i'w gilydd ar hyd y caeau ac yn y coedydd o gwmpas y ffermydd; rwy'n cofio hefyd fy mam yn drist unwaith ar ôl colli tua deg o ieir ar ôl i gadno dorri fewn i'r sied, lle 'roeddent yn noswyllo, a'u lladd. Er hynny, wedi i mi ddod i fyw ger Nottingham yn suburbia West Bridgford, ryw hanner can mlynedd yn ôl, rwyf wedi gweld llawer mwy o gadnoid na welais erioed yn y wlad. Mae ffenomen yr Urban Fox nawr i'w weld ym mhob tre braidd a phob dinas. 'Falle fod rhaid gwneud dosbarth arall sef y Vulpus Vulgaris Urbanus neu Y Cadno Cyffredin Dinesig.

Rhai blynyddoedd yn ôl 'roeddwn yn gyrru yn fore rhyw ddiwrnod ar Loughborough Rd. yn West Bridgford pan welais gadno wedi ei ladd ar yr heol. Ar ôl cyrraedd adre es ati i 'sgrifennu tipyn o soned. Pe byddai R Williams Parry yn fyw heddiw fe droai yn ei fedd, os cai gipolwg arni. Mae ei soned ef i'r llwynog yn rhan o gyfoeth barddoniaeth Cymraeg. "Ganllath o gopa'r mynydd" ac yn y blaen ac yn gorffen a'r cwpled

anfarwol

*Lithrodd ei flew cringoch dros y grib  
Digwyddodd, darfu, megis seren wib.*

Wel dyma fy esgus o soned innau isod, gan obeithio fod beirniaid llenyddol Llais y Dderwent yn oddefgar ac yn garedig. Dywedais wrth y wraig acw, "I'm the poor man's R Williams Parry." Atebodd hithau "Who is R Williams Parry?" Mae 'na obaith eto.!

### Cadno Dinesig

Ni droediodd unigeddau pell y cwm  
Ni ffroenodd chwaith fynyddig awel bêr,  
Heb orwedd dan yr haul ar weunydd llwm  
Na chwarae ger y nant dan olau'r sêr.  
Chwilota oedd ei ran, a'i gochliw hardd,  
Yn rhwygo'n sachau sbwriel i gael pryd,  
Cyn mynd i'w ffau, yn llwyni godre'r ardd,  
Ac esmwyth hanner cysgu'n llon ei fyd.  
Ond er addasu'n ddjarwybod bron,  
i naws a chyffroadau gwyllt y dre,  
Daeth cerbyd heibio ac un ergyd drom,  
i ddiffodd golau ei ddwy lygad e.  
Mae'n gorwedd heddiw yn y baw a'r llaid,  
Ar ochor hewl yn dalp o flew a gwaed.

**Howell Price  
Cymdeithas Cymry Nottingham**

Atodiad.

Ochor hewl tafodiaith Sir Gaerfyrddin am ochr yr heol

Dihangodd llwynog Williams - Parry. Cafodd fy nghadno bach innau ei ladd. Rhaid mai Llwynog yw'r gair gorau wedi'r cwbl!

Diolch yn fawr; a phob nerth i Ddysgwyr Derby a Llais y Dderwent.

**Gweithdai Cymraeg Derby  
Bob Mis, Bore Dydd Sadwrn**

**Pris £5.50 y sesiwn**

**9.30yb tan 12.20 yp**

**Tiwtor Elin Merriman**

**11-12-10, 15-1-11,**

**12-2-11, 19-3-11,**

**16-4-11,**

**21-5-11, 18-6-11**

## Ymarfer iaith ac ymarfer corff



Mi ges i ddechreuad pleserus iawn i'r penwythnos. Ar fore dydd Gwener 5 o Dachwedd es i draw i Nottingham er mwyn ymuno a Chymry Nottingham yn y Bore Coffi popeth yn Gymraeg misol yn Nhŷ Howell Price yn West Bridgford. Daeth 16 o bobl at ei gilydd am bron iawn dwy awr o sgwrs, te, coffi a phica maen! Roedd hi'n braf iawn cael gweld Viv Harris yn mynychu'r bore am awr gron! Mae gan Gymdeithas Nottingham rhaglen lawn y tymor yma efo amrywiaeth o siaradwyr, a gwasanaethau Capel, gwasanaeth carol dwyieithog ym Mis Rhagfyr a Noson Lawen ar ddiwedd tymer 2010-2011 ym Mis Mai. Gwelir [www.devamedia.co.uk/cymdeithas/nottingham](http://www.devamedia.co.uk/cymdeithas/nottingham) am fanylion llawn. Yr ydw i'n edrych ymlaen at y cyfarfod nesa yn arw.

Ar ôl y cyfarfod mi wnes i deithio draw i Swydd Caer am y penwythnos. Ro'n i'n aros yn Tarporeley gyda fy rhieni. Ces i gip ar randir fy nhad. Eleni wnaeth o wedi codi tŷ gwydr 'newydd' ar y rhandir gan ddefnyddio hen ddrysau!

Ar y Sadwrn es i draw i Gaerwys er mwyn cymryd rhan yn daith Cerdded Cymdeithas Edward Lloyd o amgylch Caerwys. Roedd hi'n bwrw glaw yn drwm pan gyrhaeddais ond cilio gwnaeth y glaw a chwson ni ddim glaw yn ystod y daith cerdded. Cafodd y daith ei arwain gan Harri Hughes. Cawson ni sawl ffaith ddiddorol am yr hen dref a'r ardal. Roedd y cwmni yn gyfeillgar ac mi ges i sawl sgwrs ddiddorol efo'r aelodau. Roedd tirwedd yr ardal yn dlws tu hwnt efo lliwiau hydref ym mhobman. Mi ddylai unrhyw ddysgwr profiadol meddwl am ymuno a'r gymdeithas ar eu teithiau. Mae gan y gymdeithas safle we, Gwelir [www.cymdeithasedwardllwyd.org.uk/tud/clwyd.htm](http://www.cymdeithasedwardllwyd.org.uk/tud/clwyd.htm) ble mae hi'n bosib gweld rhaglen y gymdeithas. Mae'r Gymdeithas yn cynnal 3 cangen ar draws Cymru felly dyw hi ddim rhy bell ar gyfer y rhan mwyaf ohonon ni, hyd yn oed y rhai fel fi, sy'n byw dros y ffin yn Lloegr. Ymarfer corff ac ymarfer iaith ar yr un pryd! Gwych!!

Jonathan Simcock

## Cymru ar y We

Llyfrgell Genedlaethol Cymru: Drych Digidol: [www.llgc.org.uk](http://www.llgc.org.uk)

Canolfan Y Celfyddydau Aberystwyth

[www.aber.ac.uk/artscentre](http://www.aber.ac.uk/artscentre)

Golwg: clychgrawn wythnosol

[www.golwg.com](http://www.golwg.com)

Prifysgol Cymru Coleg Bangor

<http://www.bangor.ac.uk>

Eisteddfod Genedlaethol Cymru

[www.eisteddfod.org.uk](http://www.eisteddfod.org.uk)

S4C Language Centre

<http://www.learnonS4.co.uk/home.php>

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

[www.bwrdd-yr-iaith.org.uk](http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk)

Clwb Malu Cachu

<http://www.clwbmalucachu.co.uk/index.htm>

Canolfan Cymry Llundain

<http://www.londonwelsh.org>

Cymdeithas Cymreig Birmingham

<http://www.birminghamwelsh.org.uk/>

Cymrodorion Maesbedr

<http://www.users.global.net.co.uk/~scrol/pws/mapysafle.html>

Northwich Welsh Society

<http://freespace.virgin.net/usedto.be/index.html>

Clwb Clebran Bradford

<http://www.communicate.co.uk/brad/welshclwbclebran/>

Nant Gwrtheyrn Language Centre

<http://nantgwrtheyrn.org/DesktopDefault.aspx>

## Cymru ar y ffôn

**Popeth Cymraeg**, Denbigh, North Wales

For free Welsh Language Courses 01745 812287

**Sheffield & District Cambrian Society**

Hon Sec. Dr G Daniels 0114 236 6301

**Cymdeithas Cymry Nottingham**

Gwynne Davies 0115 925 9613

**Northwich Welsh Society**

Gwili Lewis 01606 784438

**Bradford and District St.David's Society**

Secretary Mrs E Walker 01535 665829

**Cymdeithas Gymreig Huddersfield**

Sec Mrs Barbara Watkins 01706 817786

---

**Menter Iaith Lloegr. Safle ar Facebook i'r rhai sy'n dysgu'r Gymraeg hyd a lled Lloegr**

---

**Cysylltu a Llais Y Derwent trwy ffonio 01773 827513 neu anfon ebost i [dysgwyr5@virginmedia.com](mailto:dysgwyr5@virginmedia.com)**